# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU – IS-BWYLLGOR YNNI

**(O Bell Trwy Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Llun, 30 Medi 2024** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd J.Harvey** |
| **Cynghorwyr**: | P.Miller, A.Owen, A.Lewis a/ac J.Hurley |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | D.Thomas, G.Bacon, A.Moss, R.Griffiths, S.Aldred-Jones, B.Suddell, S.Brennan, C.Jones, K.Tillman, L.Davies a/ac C.Plowman |

---

## 1. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Derbyniwyd y datganiad o fuddiannau canlynol ar ddechrau Eitem 4 ar yr Agenda:

| | |
|---|---|
| Y Cyng. Andrea Lewis | Parthed Eitem 4 ar yr Agenda gan ei bod yn Aelod o Fwrdd Cynllun Ynni a Menter Gymunedol Abertawe |

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mai 2024 fel cofnod cywir.

## 4. DIWEDDARIAD AR GYFLAWNI'R STRATEGAETH YNNI RANBARTHOL

Rhoddwyd diweddariad i'r aelodau ynghylch y cynnydd o ran y cynllun cyflawni rhanbarthol ar gyfer Ynni; yn unol ag ymrwymiad Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru, fel yr amlinellir yn

Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol, gyda phwyslais ar Ynni Rhanbarthol.

Nodwyd bod y tri phrosiect arfaethedig y manylir arnynt yn atodiadau'r adroddiad a ddosbarthwyd er gwybodaeth a byddant yn destun datblygiad, cyn ceisio cymeradwyaeth gan gyfarfod Is-bwyllgor Ynni Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru yn y dyfodol.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi mandadu Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru i roi Strategaeth Ynni Rhanbarthol ar waith ar gyfer y rhanbarth; ac ar 15 Mawrth 2022, penderfynwyd mabwysiadu Strategaeth Ynni Rhanbarthol De-orllewin Cymru fel fframwaith ar gyfer rhaglen waith Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru. Eglurwyd bod y Cynllun Corfforaethol yn cynnwys sawl amcan lles fel rhan o'r ymrwymiad hwnnw. Amcan Lles 1 oedd darparu'r Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol a'r Strategaeth Ynni Rhanbarthol ar y cyd.

Roedd swyddogion yn cydnabod bod pryderon ynghylch y Cynlluniau Ynni Ardal Leol a sut roeddent yn offeryn ar gyfer cyflenwi lleol. Fodd bynnag, dywedwyd bod y Cynlluniau Ynni Ardal Leol yn cyflawni gwaith y Strategaeth Ynni Rhanbarthol ac yn cyflawni camau gweithredu ar gyfer Amcan Lles 1. I gloi, roedd synergedd a gorgyffwrdd cryf rhwng y Strategaeth Ynni Rhanbarthol a'r Cynlluniau Ynni Ardal Leol.  Bydd y ddau ohonynt yn llywio'r darlun cenedlaethol.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod y pedwar adroddiad Cynlluniau Ynni Ardal Leol bellach wedi'u cwblhau.  Roedd Cynlluniau Ynni Ardal Leol Sir Benfro wedi'u cwblhau yn 2022, ac erbyn hyn roedd y tri Awdurdod Lleol arall wedi cwblhau eu rhai nhw. Fel y soniwyd eisoes, bydd yr adroddiadau hyn yn ffurfio'r Strategaeth Ynni Ranbarthol. Ar hyn o bryd roedd Llywodraeth Cymru'n cydgrynhoi'r data hwn i ffurfio darlun rhanbarthol ac yna darlun cenedlaethol.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod y Cynlluniau Ynni Ardal Leol wedi cael eu datblygu yn seiliedig ar amgylchiadau a blaenoriaethau pob Awdurdod Lleol. Nodwyd bod y Cynlluniau Ynni Ardal Leol ar gyfer Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Sir Gaerfyrddin yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg ar hyn o bryd, a'r cam nesaf yn dilyn hyn fyddai cyhoeddi.

Rhoddodd swyddogion enghraifft o un o'r cynlluniau gweithredu ac esboniodd fod y camau gweithredu a'r themâu allweddol yn ailadrodd yr hyn oedd yn y Strategaeth Ynni Ranbarthol; Roedd hyn oherwydd

mae llawer o'r camau o fewn y Cynlluniau Ynni Ardal Leol yn gamau gweithredu rhanbarthol. Tynnwyd sylw at y ffaith bod 67 o gamau gweithredu o fewn y Strategaeth Ynni Rhanbarthol bresennol, a oedd yn rhan o Gynllun Corfforaethol Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru; Roedd 51 ohonynt yn cael eu cynnwys yn uniongyrchol yn y Cynlluniau Ynni Ardal Leol, ac nad oedd angen ymdrin â'r rheini ar lefel genedlaethol.

Nodwyd, dros yr haf roedd swyddogion wedi adolygu'r camau gweithredu y tynnwyd sylw atynt gan *City Science*. Cydnabuwyd bod nifer o gamau yn ymwneud ag ôl-osod a rhoi systemau gwresogi carbon lleol ar waith nad oeddent wedi cael eu nodi fel camau gweithredu rhanbarthol, er bod y camau gweithredu hyn naill ai'n cael eu cynnwys gan fwy nag un Awdurdod Lleol neu roedd ganddynt rai elfennau yr oedd angen ymdrin â hwy ar lefel ranbarthol.

Yn dilyn yr uchod, cadarnhawyd bod Swyddogion wedi dechrau blaenoriaethu'r camau gweithredu ar gyfer y Tîm Ynni Rhanbarthol. Gellir dod o hyd i'r rhestr hon yn Atodiad A yr adroddiad a ddosbarthwyd. Soniwyd bod y camau gweithredu melyn yn cynnwys gwaith sy'n mynd rhagddo yr oedd angen gwaith cydlynu ac ymgysylltu arnynt.  Y camau gweithredu coch oedd y prosiectau a oedd yn cael eu datblygu.

Esboniodd swyddogion mai camau gweithredu cyntaf y Cynlluniau Ynni Ardal Leol diweddaraf oedd llunio'r broses lywodraethu.  Yn hytrach na chreu grŵp llywio pellach ar gyfer cydlynu rhanbarthol y Cynlluniau Ynni Ardal Leol, cytunwyd y byddai'r grŵp craidd ynni presennol yn gwasanaethu'r swyddogaeth honno. Ychwanegwyd y byddai hyn yn galluogi rhanddeiliaid, timau ynni rhanbarthol a thimau ynni a chynaliadwyedd yr Awdurdod Lleol i fwydo i mewn i'r broses.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch Rhaglen Waith y Tîm Ynni Rhanbarthol a'r prosiectau. Roedd hyn yn cynnwys *Solar Together* gan iChoosr, Rhaglen Newid Ymddygiad Ôl-osod Rhanbarthol a chynllun peilot gwefru cerbydau trydan trawsffiniol. Amlinellwyd manylion pob prosiect yn Atodiadau B, C a D yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Rhoddwyd senario i'r Pwyllgor ynghylch lefel y newid a'r trawsnewidiad a fydd yn digwydd ar draws y rhanbarth; Tynnodd y ffigurau hyn sylw at bwysigrwydd y prosiectau a'r cynlluniau bach a oedd yn digwydd yng nghartrefi a busnesau pobl. Esboniwyd mai cyfuniad o'r prosiectau llai hyn a'r prif brosiectau fydd y ffordd orau o

gyflawni Sero-Net. Roedd gan drawsnewid cwsmeriaid lefelau uchel o ddatgarboneiddio a newid cymdeithasol.

Cyfeiriwyd at y cynllun peilot gwefru cerbydau trydan trawsffiniol a nodwyd yn Atodiad D yr adroddiad a ddosbarthwyd; Gofynnodd yr aelodau a oedd cyfle i rannu rhwydweithiau gyda phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ac ati. Cadarnhawyd bod Swyddogion yn dechrau trafodaethau gyda phartneriaid fel Parciau Cenedlaethol a Byrddau Iechyd, gan fod cyfle clir i gydweithio. Ychwanegwyd y gallai hyn gynnwys busnesau lleol hefyd.

Yn dilyn y cwestiwn uchod, nodwyd bod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi bod yn gwneud darn o waith dros y pedwar mis diwethaf gyda phartneriaid Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n ymwneud â'r mater hwn a theimlwyd bod y trafodaethau a'r wybodaeth a rannwyd yn gefnogol iawn. Awgrymodd Aelod y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd yng Nghyngor Sir Gâr y byddai'n ddefnyddiol rhannu manylion cyswllt y Swyddogion a oedd wedi bod yn arwain ar y darn hwnnw o waith.

Mewn perthynas â phrosiect *Solar Together* gan iChoosr, holwyd a fydd y llythyrau sy'n cael eu hanfon i'r eiddo yn cael eu brandio gan yr Awdurdod Lleol perthnasol. Yn ogystal â hyn, gofynnwyd a oedd unrhyw wersi wedi cael eu dysgu neu a oedd unrhyw risgiau i'w nodi gan Awdurdodau eraill a oedd wedi ymgymryd â'r prosiect hwn. Nodwyd bod y nifer o Awdurdodau Lleol yr oedd Swyddogion wedi siarad â nhw yn Lloegr yn ganmoliaethus iawn o'r prosiect. Mewn rhai blynyddoedd roeddent hyd yn oed wedi gwneud elw bach o'r prosiect. Er y byddai'r prosiect yn cael ei drefnu'n rhanbarthol, dywedwyd y byddai llythyrau wedi'u targedu yn cael eu hanfon allan gyda brand yr Awdurdod Lleol perthnasol.  Byddai hyn yn helpu i roi hyder i drigolion yn y prosiect.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi’r adroddiad.

5. **<u>BLAENRAGLEN WAITH</u>**

Nodwyd Blaenraglen Waith yr Is-bwyllgor Ynni.

6. **<u>EITEMAU BRYS</u>**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag